

## Cefndir

Mae Citizens Online yn elusen cynhwysiant digidol yn y DU. Ein nod yw sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn y byd digidol rydyn ni'n byw ynddo nawr. Mae byw yn ystod y cyfyngiadau symud wedi dangos i bawb pa mor bwysig yw sgiliau a thechnolegau digidol i wneud ein bywydau'n haws. Ond mae 9 miliwn o oedolion yn y DU nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r rhyngwyd.

Mae ein prosiect Pencampwyr Digidol wedi cael ei ddatblygu fel rhan o Raglen Adfer Covid19 y DU, gan gefnogi pobl sy'n agored i niwed drwy weithgareddau cynhwysiant digidol. Rydyn ni'n cynnig cymorth o bell a chymorth un-i-un i bobl.

Mae'r bobl sy'n fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol yn hŷn, ar incwm isel, yn anabl neu â chyrhaeddiad addysgol isel. Rydyn ni eisiau pontio'r bwlch digidol a helpu pawb i ddefnyddio'r rhyngwyd yn hyderus ac yn ddiogel.

## Y rôl

Mae Pencampwyr Digidol wedi cael eu hyfforddi i arfogi dysgwyr â sgiliau digidol hanfodol er mwyn iddyn nhw fagu hyder i ddefnyddio technoleg yn ddiogel. Gallent gefnogi unigolion un-i-un, naill ai o bell (yn ystod COVID) a/neu wyneb yn wyneb.

Nid oes angen i chi feddu ar sgiliau technegol penigamp i fod yn Bencampwr Digidol, ond mae angen i chi fod yn amyneddgar iawn, bod ag empathi da a sgiliau cyfathrebu rhagorol. Efallai nad yw llawer o ddysgwyr erioed wedi defnyddio'r rhyngwyd o'r blaen, a gallent fod yn agored i niwed. Eich rôl chi yw eu cefnogi a sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol gyda thechnoleg.

Mae bod yn Bencampwr Digidol yn gallu bod yn rôl gwerth chweil. Bydd gennych wybodaeth dda am sgiliau digidol, ond yn bennaf oll byddwch yn frwd dros helpu pobl eraill. Bydd gennych sgiliau pobl rhagorol a byddwch yn gyfforddus yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd amrywiol. Byddwch hefyd yn frwdfrydig ynghylch technoleg ddigidol a'i manteision i gymdeithas.

Byddwch yn cael eich cefnogi yn eich rôl gan Gydlynnydd Pencampwyr Digidol neu'r Rheolwr Prosiect. Bydd gofyn i chi gael archwiliad DBS. Byddwch yn cael hyfforddiant DPP achrededig ac yn cael eich gwahodd i rwydweithio â Phencampwyr Digidol gwirfoddol eraill i rannu llwyddiannau ac arferion gorau.

## Eich cyfrifoldebau

- Darparu cymorth sgiliau digidol i ddysgwyr dros y ffôn ac wyneb yn wyneb os bydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny.
- Hyrwyddo datblygu sgiliau digidol a hyder ymysg eich dysgwyr.
- Cofnodi nodiadau o'ch sesiynau gyda dysgwyr ar ein system ffôn Aloware.
- Cyfathrebu'n rheolaidd â'r Cydlynnydd Pencampwyr Digidol a fydd yn eich cefnogi yn eich rôl ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn iawn.

### Sgiliau gofynnol:

- Yn frwd dros helpu pobl
- Amynedd ac empathi wrth helpu pobl i fynd ar-lein
- Brwdfrydedd am sgiliau, offer a gwasanaethau digidol
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol dros y ffôn, yn ddigidol ac wyneb yn wyneb ag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth
- Gallu addasu eich arddull gyfathrebu i fod yn addas ar gyfer y dysgwr
- Sensitifrwydd a thosturi ynghylch anghydraddoldeb cymdeithasol, allgáu a gwahaniaethu

### Darparwr Hyfforddiant:

- Modiwl hyfforddiant ar-lein Hanfodol i Bencampwyr Digidol (Rhwydwaith y Pencampwyr Digidol)
- Helpu pobl o bell
- Diogelu
- Defnyddio'r ap Aloware i wneud galwadau a'u recordio
- Modiwlau eraill ar Rwydwaith y Pencampwyr Digidol, fel sy'n briodol

Rydyn ni'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob unigolyn sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol, beth bynnag fo'u hil, eu rhyw, eu gallu corfforol, eu crefydd/cred, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hoedran.

### Costau Teithio:

- Ad-delir costau teithio

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at [volunteer@citizenonline.org.uk](mailto:volunteer@citizenonline.org.uk) neu ewch i [www.citizenonline.org.uk](http://www.citizenonline.org.uk)